Y Bwrdd Taliadau

Strategaeth 2026 - 2030

Gorffennaf 2026

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac er mwyn galluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu rolau yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru.

Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd 3

1. Cipolwg ar y strategaeth ar gyfer 2026 – 2030..... Error! Bookmark not defined.

2. Cyflwyniad..... 6

Statws a swyddogaethau'r Bwrdd 7

3. Cyd-destun strategol..... 8

Senedd fwy o faint, sydd wedi'i diwygio..... 8

4. Ein Nodau, Egwyddorion a Ffyrdd o Weithio 11

Ein nodau 11

Ein hegwyddorion..... 11

Ffyrdd o weithio a'r ddolen adborth..... 12

Ymgysylltu â rhanddeiliaid..... 13

5. Ein hamcanion strategol 14

Ymgysylltu..... 14

Adolygu..... 15

Addasu 16

Cynnal 16

Risgiau 17

6. Blaenoriaethau cychwynnol 18

Rhagair y Cadeirydd

Mae dechrau'r Seithfed Senedd yn nodi pennod newydd yn nemocratiaeth Cymru. Mae ehangu'r Senedd, ynghyd â newid ei hetholaethau a'i ffyrdd o weithio, yn esgor ar ddisgwyliadau newydd, pwysau newydd a chyfleoedd newydd i'r Aelodau.

Bydd Aelodau sydd newydd eu hethol yn teimlo'r newidiadau hyn mewn ffyrdd ymarferol bob dydd, o ran sut i gynrychioli etholaethau newydd, sut i weithio'n lleol ac ymgysylltu ag etholwyr, a sut i recriwtio a chyflogi staff. I baratoi ar gyfer y cyfnod hwn o newid, cynhaliodd y Bwrdd adolygiad cynhwysfawr o'r Penderfyniad ar gostau Aelodau o ran cyflog, staff a busnes yn ystod y Chweched Senedd. Mae'r fframwaith diwygiedig yn darparu cymorth i Aelodau sy'n gliriach, yn fwy hygyrch ac yn fwy hyblyg, gan gadw mesurau diogelwch cymesur, tryloywder a gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus.

Mae ein strategaeth yn nodi sut mae'r Bwrdd yn bwriadu gweithio dros y pedair blynedd nesaf. Ar ddechrau'r Seithfed Senedd, byddwn yn canolbwyntio ar sefydlogrwydd, dysgu ac adborth. Rydym yn cydnabod yr angen i ganiatáu i'r Penderfyniad ymwreiddio, caniatáu i'r Aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd addasu i ffyrdd newydd o weithio mewn Senedd fwy o faint, a chaniatáu i drefniadau busnes, craffu a deddfwriaethol newydd gael eu sefydlu.

Wrth i'r Seithfed Senedd ymaddasu i ffyrdd newydd o weithio, bydd y Bwrdd yn mabwysiadu dull o gyflawni ei rôl sy'n ystyriol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Byddwn yn *ymgysylltu* â'r Aelodau a'u staff cymorth*,* yn *adolygu* sut mae'r Penderfyniad yn gweithio'n ymarferol*,* yn *addasu* lle bo angen, ac yn *cynnal* fframwaith sy'n cefnogi cynrychiolaeth effeithiol a hyder y cyhoedd.

Ein blaenoriaeth drwyddi draw fydd sicrhau bod gan yr Aelodau y cymorth sydd ei angen arnynt i wasanaethu pobl Cymru yn effeithiol, a bod ein penderfyniadau yn parhau i adlewyrchu tegwch, tryloywder a gwerth am arian.



Dr Elizabeth Haywood

Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Cipolwg ar y strategaeth 2026 - 2030

Ein diben



Ein statws:
Fel corff annibynnol, a sefydlwyd drwy ddeddfwriaeth* , mae'n ofynnol arnom i ddarparu fframwaith ar gyfer tâl a chymorth i Aelodau sy'n helpu i hwyluso gwaith y Senedd, gan alluogi cynrychiolaeth ddemocratiaeth effeithiol a sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru.



Yr hyn a wnawn:
Rydym yn pennu faint mae Aelodau o'r Senedd yn cael eu talu, i adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl ganddynt fel cynrychiolwyr etholedig.

Rydym yn pennu'r costau busnes maen nhw'n gallu eu hawlio, gan gynnwys rhedeg eu swyddfeydd a chyflogi eu staff



Rydym yn gweithio gydag eraill:
Rydym yn gweithio gyda Chomisiwn y Senedd a Chomisiynydd Safonau'r Senedd i sicrhau bod ein penderfyniadau'n cefnogi Senedd lwyddiannus.

Ein hegwyddorion arweiniol



Gwerth am arian i bobl Cymru:
Bydd ein penderfyniadau'n adlewyrchu amgylchiadau economaidd ac ariannol Cymru, gan gynnwys yng nghyd-destun enillion pobl.



Llwyddiant:
Bydd ein penderfyniadau'n cefnogi llwyddiant hirdymor y Senedd, gan alluogi'r Aelodau i gyflawni eu rôl yn y Senedd a chynrychioli eu hetholwyr yn effeithiol.



Y dyfodol:
Bydd ein penderfyniadau yn dryloyw ac yn gynaliadwy, yn hyrwyddo uniondeb ac yn lleihau'r rhwystrau ariannol i ymgeiswyr posibl sefyll mewn etholiadau.

Ein nodau

Darparu'r fframwaith cyllid a chymorth i Aelodau gyflawni eu rôl yn y Senedd yn effeithiol a chynrychioli eu hetholwyr.

Sicrhau bod y Penderfyniad yn parhau i fod yn addas at y diben, ei fod yn adlewyrchu newidiadau mewn ffyrdd o weithio ac arferion gweinyddol, a'i fod wedi'i osod yng nghyd-destun economaidd Cymru.

Ein hamcanion strategol

Ymgysylltu:
Gwella'n rhagweithiol ac yn barhaus sut rydym yn cynnwys rhanddeiliaid ac yn ymgysylltu â nhw cyn ac wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â'r rhai yr effeithir arnynt, cydweithio â'r rhai sy'n gweithredu'r Penderfyniad, ac egluro penderfyniadau'n glir i'r Aelodau a'r cyhoedd.

Adolygu:
Dadansoddi data a thystiolaeth ynghylch sut mae penderfyniadau'r Bwrdd yn gweithredu yn ymarferol, gan sicrhau bod y Penderfyniad yn glir, yn syml, yn addas at y diben, ac yn gweithio fel y bwriadwyd. Asesu a oes angen newid penderfyniadau neu eu cyfleu'n wahanol.

Addasu:
Byddwn yn addasu i newidiadau ym musnes y Senedd a ffyrdd o weithio, gan sicrhau bod y Penderfyniad yn cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant, yn hwyluso arloesedd a moderneiddio, ac yn adlewyrchu rôl esblygol y Senedd a'i Haelodau.

Cynnal:
Sicrhau bod penderfyniadau'n sefyll prawf amser, yn hyrwyddo atebolrwydd, yn parhau i fod yn gynaliadwy'n ariannol, ac yn cyfrannu tuag at Senedd lwyddiannus.

***Mae manylion llawn am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010)**

1. Cyflwyniad

1. Mae ein strategaeth yn nodi sut y byddwn yn mynd ati i wneud ein gwaith yn ystod y Seithfed Senedd a sut y byddwn yn paratoi ar gyfer yr Wythfed Senedd.

2. Rydym yn cydnabod y bydd y Seithfed Senedd yn gweithredu mewn tirwedd seneddol newydd, gyda rhagor o Aelodau, trefniadau etholaethol gwahanol, ffyrdd newydd o weithio, a newidiadau posibl i drefniadau busnes y Senedd.

3. Yn ystod y Chweched Senedd, gwnaethom adolygu a symleiddio'r Penderfyniad ar Gyflogau, Staffio a Chymorth Busnes yr Aelodau gyda'r nod o sicrhau bod gan yr Aelodau yr hyblygrwydd i'w galluogi i ymateb i ofynion newydd y Senedd ar ei newydd wedd. Ar yr un pryd, rydym wedi adolygu a chadw mesurau diogelwch priodol er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol, gan gefnogi uniondeb a gwerth am arian.

4. Efallai na fydd angen diwygio'r Penderfyniad yn sylweddol yn ystod y Seithfed Senedd. Rydym yn bwriadu myfyrio ar sut mae'r Penderfyniad newydd yn ymwreiddio a sut mae'r Aelodau newydd a'r Senedd newydd yn gweithredu, gan gadw hyblygrwydd er mwyn ymateb lle bo angen newid.

5. Mae ein strategaeth yn adeiladu ar arsylwadau ac argymhellion y Bwrdd blaenorol yn ei adolygiad annibynnol diwedd tymor. Wrth gynnal yr adolygiad, daethpwyd i'r casgliad bod y Bwrdd yn 'gweithredu'n dda ac yn effeithiol', a bod y fframwaith llywodraethu yn 'gymesur' ac yn 'addas at y diben'. Gwnaed nifer o argymhellion yn yr adolygiad hefyd, gan gynnwys datblygu 'dolen adborth' er mwyn asesu a yw'r Penderfyniad yn cyflawni amcanion polisi'r Bwrdd ar lawr gwlad, a chynnal adolygiad o strategaeth y Bwrdd ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.

6. Wrth i'r Seithfed Senedd fynd rhagddi, bydd y Senedd yn pennu ei threfniadau gwaith a bydd Comisiwn y Senedd yn pennu ei ddull strategol ar gyfer y tymor. Bydd y Bwrdd yn adolygu ei ddull yng ngoleuni'r datblygiadau hynny er mwyn sicrhau bod y Penderfyniad a'r fframwaith cymorth yn parhau i ddiwallu anghenion yr Aelodau a chefnogi Senedd lwyddiannus.

Statws a swyddogaethau'r Bwrdd

7. Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd wedi'u nodi yn **Neddf Llywodraeth Cymru 2006** ac ym **Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010**.

8. Fel corff annibynnol, ni sy'n penderfynu ar y costau sydd ar gael i Aelodau o'r Senedd, o ran cyflog, staff a busnes.

9. Mae gennym amcanion statudol sy'n cynnwys:

- sicrhau nad oes unrhyw rwystrau ariannol i sefyll mewn etholiad, a hynny er mwyn denu ystod amrywiol o ymgeiswyr galluog; a
- darparu tâl ac adnoddau digonol i helpu Aelodau i wneud eu gwaith, gan sicrhau atebolrwydd, uniondeb, tryloywder a gwerth am arian i'r cyhoedd.

10. Mae ein penderfyniadau wedi'u nodi yn y **Penderfyniad**, sy'n darparu fframwaith o gymorth ariannol y gall yr Aelodau ei gael a'r rheolau o ran yr hyn y gallant ei hawlio i'w helpu i gyflawni eu rôl.

11. Er ein bod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, y Senedd a Chomisiwn y Senedd, rydym yn gweithio gydag eraill wrth gyflawni ein swyddogaethau a'n hamcanion, gan gynnwys Comisiwn y Senedd (sy'n gweinyddu'r Penderfyniad) a Chomisiynydd Safonau'r Senedd, a hynny er mwyn sicrhau bod ein penderfyniadau yn cefnogi Senedd lwyddiannus.

2. Cyd-destun strategol

12. Wrth ddatblygu ein strategaeth a'n ffocws, rydym wedi ystyried y cyd-destun y bydd y Seithfed Senedd yn gweithredu ynddo.

13. Rydym wedi edrych tua'r gorwel er mwyn ystyried y prif ysgogwyr byd-eang, a'r rhai sy'n benodol i Gymru, ynghyd â'r risgiau strategol a allai ddylanwadu ar ein gwaith yn ystod y Seithfed Senedd. Rydym wedi crynhoi'r materion sy'n benodol i Gymru a'r materion byd-eang yn bum ffactor strategol allweddol a fydd yn llywio ein gwaith.

14. Ar draws y pum ffactor, bydd gwaith y Bwrdd yn cael ei lywio gan amodau allanol – o fewn Cymru a thu hwnt iddi – gan gynnwys ansefydlogrwydd economaidd a geo-wleidyddol byd-eang, pwysau ar gyllid aelwydydd, newid cyflym yn yr amgylchedd gwybodaeth, effaith gynyddol deallusrwydd artiffisial, a mwy o graffu ar sefydliadau democrataidd a'r rhai sy'n gwasanaethu ynddynt.

Senedd fwy o faint, sydd wedi'i diwygio

15. Bydd y Senedd yn gweithredu mewn cyfnod o newid sefydliadol sylweddol, ac mae 70% o'r Aelodau yn newydd i'w rôl. Mae Senedd fwy o faint, setliad datganoli sy'n esblygu, a newidiadau i ffyrdd o weithio yn debygol o effeithio ar sut mae'r Aelodau'n cyflawni eu rolau deddfwriaethol, craffu a chynrychioliadol. Mae'r newidiadau hyn hefyd yn digwydd mewn amgylchedd gwleidyddol a chyhoeddus sy'n newid, a allai ddylanwadu ar ddisgwyliadau'r Aelodau a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi.

16. Bydd angen i'r Bwrdd sicrhau hyblygrwydd er mwyn ymateb i newidiadau i Reolau Sefydlog y Senedd, arferion gwaith a ffiniau'r etholaethau cyn yr Wythfed Senedd. Ar draws ei ffrydiau gwaith, bydd y Bwrdd yn ystyried a yw'r Penderfyniad yn parhau i ddarparu cymorth priodol ac ymatebol o ran swyddogaethau'r Aelodau, gan gynnwys eu gwaith craffu a'u gweithgarwch deddfwriaethol.

17. Mae'r Bwrdd hefyd yn sensitif i ddimensiwn dynol y rôl unigryw a heriol hon, ac yn rhoi ystyriaeth i'r mater hwn. Bydd gan yr Aelodau a'u staff anghenion amrywiol. Maent yn wynebu'r bygythiad o gael eu cam-drin a'u bygylu, wyneb yn wyneb ac ar-lein. Efallai y bydd angen cymorth ariannol a llesiant ar rai yn y dyfodol, o ystyried y cylch etholiadol ac ansicrwydd y rôl.

Hyder y cyhoedd a gwerth am arian

18. Mae creu Senedd fwy o faint wedi arwain at gynnydd yng nghost gyffredinol y sefydliad, gan gynnwys cymorth ar gyfer yr Aelodau. Mae cost gyffredinol y Senedd yn cyfrif am 0.37% o gyllideb Cymru; fodd bynnag, mae'n anochel bod 'costau democratiaeth' yn destun lefel sylweddol o graffu. Roedd y ganran a bleidleisiodd yn etholiad y Senedd 2026, sef 51.6%, yn uchafbwynt hanesyddol, ond mae dealltwriaeth y cyhoedd o rôl y Senedd yn parhau i fod yn gyfyngedig, ac ni ellir cymryd yn ganiataol bod ganddynt hyder yn uniondeb y broses wleidyddol. Mae hyn yn digwydd mewn cyd-destun ehangach o ansicrwydd economaidd byd-eang, pwysau parhaus o ran costau byw, a sensitifrwydd cynyddol o ran gwariant cyhoeddus.

19. Bydd y Bwrdd yn parhau i roi pwyslais arbennig ar egluro ei benderfyniadau, gan ddefnyddio tystiolaeth a data i ddangos uniondeb, tryloywder a gwerth am arian. Bydd yn cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, a hynny mewn amgylchedd gwybodaeth sy'n symud yn gyflym ac sy'n fwyfwy dadleuol. Bydd y Bwrdd hefyd yn ystyried cynaliadwyedd hirdymor y Penderfyniad yng nghyd-destun economi a chyllid cyhoeddus Cymru.

Yr Aelodau fel cyflogwyr mewn gweithle sy'n newid

20. Yr Aelodau yw cyflogwyr unigol eu staff, ac maent yn ddarostyngedig i gyfrifoldebau cyflogaeth statudol. Mae'r fersiwn ddiwygiedig o God Ymddygiad yr Aelodau hefyd yn nodi'r safonau cyflogaeth newydd y mae disgwyl i'r Aelodau lynu wrthynt.

21. Daw heriau gweithredol a llywodraethu parhaus, yn ogystal â chyfleoedd, yn sgil y lefel uchel o drosiant a welwyd ymhlith yr Aelodau a'u staff cymorth yn dilyn yr etholiad, y broses o gyflwyno fframwaith cyflogaeth newydd, a newidiadau mewn technoleg, deallusrwydd artiffisial, arferion gwaith a gofynion statudol.

22. Mae'r Bwrdd yn darparu'r fframwaith ar gyfer tâl, telerau ac amodau staff a ariennir o adnoddau cyhoeddus.

23. Bydd y Bwrdd yn ystyried a yw'r fframwaith yn cefnogi Aelodau i fod yn gyflogwyr da ac a yw'n cynnig amddiffyniad digonol, gan ystyried y Cod Ymddygiad newydd, y broses o weithredu'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, a'r hinsawdd wleidyddol sy'n newid.

Rôl y Bwrdd o fewn system ehangach

24. Mae'r Penderfyniad yn gweithredu ochr yn ochr â'r Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd a Chod Ymddygiad ar Safonau Ymddygiad Aelodau o'r Senedd. Er nad yw'r Bwrdd yn gyfrifol am weinyddu'r Penderfyniad, mae gofyn iddo ddeall sut mae'n gweithredu'n ymarferol, a hynny er mwyn asesu a yw bwriad polisi'r Bwrdd yn cael ei gyflawni ac a yw'r fframwaith yn parhau i fod yn briodol.

25. Mae'r ffaith bod y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn symlach yn cynyddu'r ddibyniaeth ar egwyddorion a chanllawiau. Felly, bydd y Bwrdd yn ceisio data ac adborth gwell ar y broses weithredu a'r cymorth a ddarperir er mwyn asesu gweithrediad y Penderfyniad yn ymarferol.

Cylch etholiadol byrrach

26. Mae'r penderfyniad i symud i gylch etholiadol pedair blynedd yn lleihau'r amser sydd ar gael i baratoi'r Penderfyniad ar gyfer yr Wythfed Senedd. Bydd angen dull disgybledig o flaenoriaethu gwaith a sicrhau ei fod yn digwydd yn y drefn gywir.

27. Mae'r Bwrdd yn bwriadu cyfyngu'r newidiadau a wneir i'r Penderfyniad yn ystod y Seithfed Senedd i addasiadau hanfodol a diweddariadau arferol, gan symud y ffocws yn raddol tuag at baratoi Penderfyniad cadarn ac ymarferol ar gyfer yr Wythfed Senedd.

28. Y nod yw caniatáu digon o amser ar gyfer gwaith ymgysylltu a gwaith ymgynghori, gwneud penderfyniadau, a datblygu canllawiau i gynorthwyo'r broses weithredu. Bydd angen i'r Bwrdd ymateb i unrhyw adolygiadau gan y Senedd o arferion busnes neu adolygiadau ôl-ddeddfwriaethol, yn ogystal â newidiadau pellach i ffiniau'r etholaethau cyn yr Wythfed Senedd.

3. Ein Nodau, Egwyddorion a Ffyrdd o Weithio

Ein nodau

29. Bydd y broses o gyflawni ein swyddogaethau statudol yn cael ei llywio gan y cyd-destun strategol ar gyfer y cyfnod nesaf, ac mae ein nodau ar gyfer y Seithfed Senedd fel a ganlyn:

> *Ein nodau:*
> *Darparu fframwaith cyllid a chymorth sy'n caniatáu i'r Aelodau gyflawni eu rôl yn y Senedd yn effeithiol a chynrychioli eu hetholwyr, a*
>
> *Sicrhau bod y Penderfyniad yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn cyflawni gwerth am arian, gan adlewyrchu newidiadau mewn ffyrdd o weithio ac arferion gweinyddol, a hynny yng nghyd-destun economaidd Cymru.*

Ein hegwyddorion

30. Mae'r egwyddorion arweiniol sy'n sail i'n gwaith a'n prosesau gwneud penderfyniadau wedi'u nodi yn y Penderfyniad, ac maent yn adlewyrchu swyddogaethau statudol y Bwrdd, fel y'u nodir yn adran 3(2) o'r Mesur.

31. Wrth bennu ein strategaeth, rydym wedi adolygu'r egwyddorion er mwyn cadarnhau ein cylch gorchwyl, ein bwriad a'n pwrpas wrth ystyried polisïau a gwneud ein penderfyniadau:

> *Ein hegwyddorion arweiniol*
>
> *Gwerth am arian i bobl Cymru*
>
> *Bydd ein penderfyniadau'n adlewyrchu amgylchiadau economaidd ac ariannol Cymru, gan gynnwys yng nghyd-destun enillion pobl.*
>
> *Llwyddiant*
>
> *Bydd ein penderfyniadau yn cefnogi llwyddiant hirdymor y Senedd, gan alluogi'r Aelodau i gyflawni eu rôl yn y Senedd a chynrychioli eu holl etholwyr yn effeithiol.*

Y dyfodol

Bydd ein penderfyniadau yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a byddant yn hyrwyddo uniondeb ac yn lleihau'r rhwystrau i sefyll mewn etholiad ar gyfer yr holl ymgeiswyr posibl.

Ffyrdd o weithio a'r ddolen adborth

32. Bydd y Bwrdd yn defnyddio tri chwestiwn craidd i ddeall sut mae'r Penderfyniad yn gweithredu yn ymarferol:

1. Sut mae'r Penderfyniad yn cael ei ddefnyddio gan yr Aelodau?
2. A yw'r Penderfyniad yn cyflawni amcanion polisi arfaethedig y Bwrdd?
3. A yw'r Penderfyniad yn cael ei weld gan eraill fel un sy'n effeithiol?

33. Bydd y cwestiynau hyn yn bwydo i mewn i 'ddolen adborth' sy'n adeiladu ar dystiolaeth sefydledig a mecanweithiau adborth y Bwrdd. Bydd ein gwaith yn parhau i gael ei lywio gan ddata sydd wedi'u cyhoeddi ar hawliadau, a byddwn yn ceisio adborth anffurfiol a ffurfiol amserol gan Aelodau, eu staff a chynrychiolwyr o'r undebau llafur, yn ogystal â Chomisiwn y Senedd, ynglŷn â sut mae'r Penderfyniad yn cael ei ddefnyddio.

34. Mae ein dull yn mynd i'r afael â thema sylfaenol a nodwyd yn yr Adolygiad Diwedd Tymor, sef sicrhau bod y Penderfyniad yn cael ei adolygu yn erbyn y profiad a geir drwy roi penderfyniadau'r Bwrdd ar waith, ac yn cael ei lywio gan y profiad hwn.

35. Er ein bod yn gwneud penderfyniadau ynghylch fframwaith y cymorth a ddarperir a'r hyn y gall yr Aelodau ei hawlio, Comisiwn y Senedd sy'n gyfrifol am weinyddu'r Penderfyniad, gan gynnwys penderfynu sut y gall yr Aelodau wneud hawliadau a chyhoeddi manylion am hawliadau'r Aelodau.

36. Mae ein strategaeth yn ceisio meithrin ymhellach y berthynas waith gydweithredol ac adeiladol â Chomisiwn y Senedd, a hynny er mwyn nodi ac archwilio materion o ddiddordeb cyffredin, gan sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei hysbysu am effeithiolrwydd y Penderfyniad a'i benderfyniadau diweddar, yn enwedig yng ngoleuni'r newidiadau sylweddol a gyflwynwyd ar gyfer y Seithfed Senedd.

37. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn hefyd yn diweddaru ac yn adolygu ein Hegwyddorion Llywodraethu a chanllawiau ar gynnal busnes ein hunain, sy'n nodi sut y bydd y Bwrdd yn gweithio.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

38. Mae ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hanfodol os ydym am gyflawni ein hamcanion strategol a chyflawni ein dyletswyddau statudol o ran bod yn annibynnol, agored a chynhwysol.

39. Yn gynnar yn y Seithfed Senedd, byddwn yn adnewyddu ein strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cefnogi ein nodau a chasglu adborth defnyddiol ynghylch y Penderfyniad a sut rydym yn cyflawni ein nodau strategol. Bydd hyn hefyd yn ein helpu i gryfhau a chynnal perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol.

40. Wrth i'r Seithfed Senedd ddechrau, bydd ein gwaith ymgysylltu yn canolbwyntio ar randdeiliaid allweddol newydd, sef: Aelodau o'r Senedd (gan gynnwys deiliaid swyddi newydd a grwpiau newydd yn y Senedd), staff cymorth yr Aelodau, a Chomisiwn y Senedd.

41. Bydd ein dull o ymdrin â chysylltiadau cyhoeddus ac ymgysylltu hefyd yn ceisio rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod penderfyniadau ynghylch y tâl a'r cymorth a roddir i'r Aelodau yn annibynnol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ystyried gwerth am arian, a bod atebolrwydd, uniondeb a thryloywder yn cael eu blaenoriaethu.

4.Ein hamcanion strategol

42. Mae ein hamcanion strategol yn nodi sut y bydd y Bwrdd yn cyflawni ei swyddogaethau statudol ac yn cyflawni ei nodau yn ystod y Seithfed Senedd.

43. Maent yn egluro sut y byddwn yn ymgysylltu, a sut y byddwn yn adolygu, yn addasu ac yn cynnal y Penderfyniad, gan ddefnyddio data, adborth a thystiolaeth i asesu a yw'n parhau i fod yn glir, yn deg, yn gynaliadwy ac yn ymatebol.

44. Byddwn yn datblygu fframwaith ar gyfer mesur llwyddiant a chynnydd yn erbyn ein hamcanion yn gynnar yn y Seithfed Senedd, yn adolygu'r cynnydd a wneir yn ystod y tymor, ac yn adrodd ar y cynnydd hwnnw drwy ddiweddariadau a'n hadroddiad blynyddol.

Ymgysylltu

Byddwn yn ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn gwella'n barhaus sut rydym yn cynnwys rhanddeiliaid cyn gwneud penderfyniadau ac wrth eu gwneud.

45. Mae gennym ddyletswydd statudol i ymgynghori â'r rhai yr effeithir arnynt gan ein penderfyniadau, gan gynnwys yr Aelodau a'u staff, a Chomisiwn y Senedd, fel y corff sy'n gyfrifol am weinyddu'r Penderfyniad.

46. Y tu hwnt i'r ddyletswydd statudol hon, mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi clywed profiadau a sylwadau rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd. Byddwn yn ceisio eu cynnwys yn y broses o adolygu'r Penderfyniad, gan sicrhau ei fod yn darparu cymorth digonol i'r Aelodau, yn cyfrannu at lwyddiant y Senedd, ac yn darparu gwerth am arian.

47. Byddwn yn egluro ein penderfyniadau ac yn dangos y dystiolaeth sy'n sail iddynt yn glir i randdeiliaid a'r cyhoedd.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn

- Gwella cyfathrebu â rhanddeiliaid ac adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth a gyhoeddir ar wefan y Bwrdd, er mwyn codi ymwybyddiaeth o rôl y Bwrdd a'r Penderfyniad.
- Cynnal a chryfhau perthnasoedd gyda'r canlynol:

- Yr Aelodau, staff a chynrychiolwyr yr undebau llafur, drwy gyfarfodydd y Grŵp Cynrychiolwyr a sesiynau galw heibio rheolaidd; a
- Chomisiwn y Senedd, er mwyn cefnogi'r ymrwymiad a rennir i ddarparu adnoddau a chymorth effeithiol i'r Aelodau a chyfrannu at Senedd lwyddiannus.

- Adolygu a diweddaru strategaeth ymgysylltu'r Bwrdd, a'i haddasu yn ôl yr angen er mwyn adlewyrchu ffyrdd newydd o weithio a newidiadau yn nhrefniadau busnes y Senedd.
- Cryfhau'r broses o gyfathrebu â'r cyhoedd er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch annibyniaeth y Bwrdd, ei broses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ei atebolrwydd, a'r gwerth am arian y mae'n ei gynnig.

Adolygu

Byddwn yn adolygu sut mae ein penderfyniadau yn gweithredu yn ymarferol, ar sail data, tystiolaeth ac adborth, er mwyn sicrhau bod y Penderfyniad yn glir, yn syml, yn addas at y diben, ac yn gweithio'n unol â'r bwriad.

48. Mae gennym ddyletswydd statudol i adolygu'r Penderfyniad yng ngoleuni profiad ac unrhyw newidiadau i rolau'r Aelodau. Mae'n bwysig bod y Penderfyniad yn parhau i fod yn addas at y diben – yn glir, yn ymarferol ac yn cyflawni amcanion polisi arfaethedig y Bwrdd – a'i fod yn parhau i ymateb i anghenion newidiol yr Aelodau, y gymdeithas a'r Senedd.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn

- Datblygu dolen adborth effeithiol gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys yr Aelodau, staff cymorth a Chomisiwn y Senedd, er mwyn deall sut mae'r Penderfyniad yn gweithredu'n ymarferol.
- Monitro'r defnydd o ddarpariaethau, a'r nifer sy'n manteisio arnynt, er mwyn asesu a yw'r Penderfyniad yn ymateb i anghenion yr Aelodau yn ystod y Seithfed Senedd, ac yn eu cefnogi.
- Cynnal adolygiadau ôl-weithredol o newidiadau allweddol a gyflwynwyd drwy'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd, er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a bod y newidiadau yn effeithiol o ran cyflawni'r canlyniadau polisi arfaethedig.

Addasu

Byddwn yn addasu i newidiadau yn nhrefniadau busnes y Senedd a'i ffyrdd o weithio, gan sicrhau bod y Penderfyniad yn cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant, yn hwyluso arloesi a moderneiddio, ac yn adlewyrchu rôl esblygol y Senedd a'i Haelodau.

49. Gan gydnabod y bydd y Seithfed Senedd yn dod â newidiadau sylweddol o ran sut mae'r Aelodau a'r Senedd yn gweithio, mae gennym ddyletswydd statudol i adolygu'r Penderfyniad er mwyn caniatáu i'r Aelodau gyflawni eu rolau a chefnogi Senedd lwyddiannus.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn

- Adolygu a diweddaru proses y Bwrdd o edrych tua'r gorwel parthed y cyd-destun strategol, gan adlewyrchu newidiadau perthnasol yn y Penderfyniad lle gallent effeithio ar y Senedd neu'r Aelodau yn eu rolau.
- Cadw'r un egwyddorion sylfaenol wrth ymdrin ag unrhyw adolygiadau o'r Penderfyniad: sicrhau hyblygrwydd o ran y Penderfyniad, a sicrhau hyblygrwydd i'r Aelodau o ran ymateb i anghenion busnes a ffyrdd dewisol o weithio, gyda mesurau diogelwch cymesur i gefnogi uniondeb a gwerth am arian.
- Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn sgil ffyrdd newidiol yr Aelodau o weithio ac yn sgil dulliau gweithredu sefydliadau a Seneddau eraill wrth ddatblygu atebion arloesol a diwallu anghenion amrywiol.
- Adolygu'r goblygiadau sy'n deillio o newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, trefniadau llywodraethu neu drefniadau gwaith y Senedd lle mae'r rhain yn berthnasol i'r Penderfyniad, neu'r cymorth a ddarperir i Aelodau, ac ymgynghori ar y materion hyn, lle bo angen.
- Trin gwaith ymgysylltu ac adborth gan randdeiliaid fel tystiolaeth ar gyfer llywio penderfyniadau a chefnogi gwerth am arian.

Cynnal

Byddwn yn sicrhau bod ein penderfyniadau yn addas at y dyfodol, yn hyrwyddo atebolrwydd, yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol, ac yn cyfrannu tuag at Senedd lwyddiannus.

50. Mae tymor pedair blynedd y Seithfed Senedd wedi dechrau yn ystod cyfnod o ansicrwydd sylweddol yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae gwrthdaro yn

Ewrop a'r Dwyrain Canol yn debygol o effeithio ar bolisïau'r Llywodraeth, gwariant cyhoeddus, economi Cymru, a chostau byw.

51. Mae'r disgwyliadau a'r lefel o graffu sydd ynghlwm wrth waith Aelodau etholedig, Llywodraethau a chyrff cyhoeddus yn parhau i dyfu. Yn y cyfamser, mae'r sefyllfa o ran cyllid cyhoeddus yn debygol o fod yn fwyfwy heriol.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn

- Sicrhau bod penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu hystyried yng nghyd-destun enillion Cymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.
- Caniatáu i'r Penderfyniad ymwreiddio drwy flaenoriaethu newidiadau hanfodol yn unig yn ystod y cyfnod cynnar, a hynny'n seiliedig ar brofiad gweithredol ac amgylchiadau economaidd sy'n newid.
- Adolygu proses y Bwrdd o edrych tua'r gorwel er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n rhoi ystyriaeth i ffactorau dylanwadol yng Nghymru ac yn fyd-eang, ac er mwyn sicrhau bod y Penderfyniad yn parhau i fod yn addas at y diben.
- Gweithio gyda Chomisiwn y Senedd mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin er mwyn hyrwyddo uniondeb, atebolrwydd a thryloywder.

Risgiau

52. Byddwn yn datblygu fframwaith risg mewnol cymesur i gefnogi proses ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ystod y Seithfed Senedd sy'n glir ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ystyried y ffordd orau o ymateb i unrhyw risgiau pwysig a allai effeithio ar ein gallu i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol. Bydd y fframwaith yn cael ei adolygu'n barhaus ac yn cael ei ddiweddaru yn ein Hadroddiad Blynyddol.

5. Blaenoriaethau cychwynnol

54. Ein ffocws cychwynnol fydd caniatáu i'r Penderfyniad a'r fframwaith cymorth ymwreiddio, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben ar gyfer y Seithfed Senedd, a gwneud newidiadau cyfyngedig yn unig er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

55. Yn ystod y 12 i 18 mis cyntaf, byddwn yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i drefniadau busnes y Senedd, y Rheolau Sefydlog a ffyrdd o weithio'r Aelodau, ac yn addasu ein dull gweithredu lle bo angen.

56. Wrth i'r tymor fynd yn ei flaen, byddwn yn ymgysylltu a'r Aelodau, staff cymorth a Chomisiwn y Senedd er mwyn nodi unrhyw newidiadau sydd eu hangen ar gyfer y Penderfyniad ar gyfer yr Wythfed Senedd.

57. Byddwn yn cyhoeddi ein rhaglen waith a'n blaenoriaethau ar ein gwefan, a byddwn eu diweddaru.